DATRYSIADAU TAI
CONWY
HOUSING SOLUTIONS

FS8

Taflen Ffeithiau

Dadfeddiannu Anghyfreithlon.

Beth yw Dadfeddiannu Anghyfreithlon?

Er mwyn i Landlord eich dadfeddiannu, rhaid dilyn camau cyfreithiol. Os ydych yn cael ei dadfeddiannu gan eich landlord a dydyn nhw heb ddilyn y drefn gywir gelwir hyn yn Ddadfeddiannu Anghyfreithlon. Mae esiamplau o ddadfeddiannu anghyfreithlon yn cynnwys:

- Eich gorfodi i adael drwy'ch bygwth neu'ch aflonyddu
- Eich taflu allan yn gorfforol
- Eich atal rhag cyrraedd rhannau penodol o'ch tŷ

Beth a ddylwn i ei wneud os yw fy landlord yn fy nadfeddiannu'n anghyfreithlon?

Ceisiwch drafod gyda'ch Landlord – os nad ydyn nhw'n fodlon eich gadael yn ôl i'r eiddo yna gallwch roi gwybod iddynt eich bod chi'n mynd i gymryd camau pellach.
Os ydych wedi eich dadfeddiannu'n anghyfreithlon mae gennych hawl i fyw yn yr eiddo o hyd. Gall y Tîm Datrysiadau Tai roi cymorth ichi.
Gallwch gymryd camau cyfreithiol er mwyn cael eich ailosod yn yr eiddo.

Sut gall Datrysiadau Tai Conwy fod o help?

- Gallu trafod gyda'ch Landlord;
- Rhybuddio'ch landlord o oblygiadau posib dadfeddiannu anghyfreithlon
- Eich cynorthwyo i fynd yn ôl i'ch cartref yn dilyn dadfeddiannu anghyfreithlon.
- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r hawl i erlyn landlordiaid sy'n dadfeddiannu tenantiaid yn anghyfreithlon.

Beth all y Llysoedd ei wneud?

Mewn rhai achosion mae gan y Llysoedd y pŵer i roi gwaharddeb argyfwng i chi. Mae hyn yn golygu BOD RHAID i'r Landlord ganiatáu ichi fynd yn ôl i'ch cartref.
Gall y llysoedd hefyd orchymyn y landlordiaid i dalu iawndal i chi..

All yr Heddlu fod o gymorth?

Os nad yw'r dadfeddiannu yn dreisgar, efallai na fydd yr Heddlu yn ymyrryd. Fodd bynnag, mae'n werth gadael i'r Heddlu wybod am y dadfeddiannu rhag ofn y byddwch angen tystiolaeth yn nes ymlaen.

- Gofynnwch i'r heddlu am help os ydych yn cael eich dadfeddiannu'n anghyfreithlon.
- Dylai'r heddlu ddod i'ch cartref os gallant rwystro trais neu dor heddwch.
- Ffoniwch 999 mewn argyfwng.
- Mae'n bosib na fydd yr heddlu weithiau'n ymwybodol o'r gyfraith am ddadfeddiannu anghyfreithlon. Gallwch ddweud wrthynt fod y Ddeddf Rhwystro Dadfeddiannu 1977 yn golygu ei bod hi'n drosedd i landlord eich dadfeddiannu heb ddilyn y camau cyfreithiol cywir. Ni ddylai'r heddlu alluogi na chynorthwyo mewn achos o ddadfeddiannu, ond gallant weithio er mwyn rhwystro tor heddwch.
- Dangoswch gopi o'ch cytundeb tenantiaeth i'r heddlu.

Os gall Datrysiadau Tai Conwy gadarnhau na allwch gael mynediad i'r eiddo, mae'n bosib y gallant gynnig llety dros dro i chi, yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol. Caiff hyn ei drafod gyda chi yn ystod eich asesiad.

Os byddwch yn cael ail-fynediad i'ch cartref efallai na fyddwch yn teimlo'n gyfforddus yno'n dilyn y dadfeddiannu. Yn ystod eich asesiad gyda'r Swyddog Datrysiadau Tai, cewch gyngor ar Ddarparwyr Tai amrywiol a sut i ddarganfod llety amgen, diogel, fforddiadwy.

Oes unrhyw wasanaethau eraill all roi cymorth a chefnogaeth i mi?

Oes - Gall ein hasiantaethau partner gynnig amrywiaeth o gefnogaeth a chyngor.

Shelter Cymru
☎ 01792 469400 💻 www.sheltercymru.org.uk
Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl LL18

citizens advice

Cyngor ar Bopeth
☎ 0344 477 2020 💻 www.citizensadvice.org.uk
Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX